

PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod o Bell a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: R. Hendicott (Cadeirydd ac Aelod Annibynnol); Y Cynghorwyr J.E. Charles a C.P. Franks; G. Watkins (Aelod Annibynnol) a'r Cynghorydd P. Summers (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned).

CYHOEDDIAD –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol”.

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain oddi wrth R. Alexander, G. Olphert a L. Tinsley (Aelodau Annibynnol) a'r Cynghorydd R.M. Birch.

COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2024 fel cofnod cywir.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

CAIS AM OLLYNGIAD (MO/HLDS) –

Pwrpas yr adroddiad oedd ystyried cais am ollyngiad gan y Cynghorydd E.J. Goodjohn o Gyngor Bro Morgannwg fel y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Dywedodd y Pen Swyddog Gwasanaethau Democrataidd hefyd wrth y Pwyllgor fod y Cynghorydd Goodjohn hefyd, yn dilyn trafodaeth ddiweddar, wedi gofyn am i'r cais gael ei ystyried mewn perthynas â'i rôl fel Aelod o Gyngor Tref y Barri pe bai angen i faterion o'r fath gael eu hystyried gan y Cyngor hwnnw yn ei gyfarfodydd.

PENDERFYNWYD – Caniatáu'r gollyngiad a nodir yn yr atodlen isod hyd at ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf:

Aelod sy'n Gofyn am Ollyngiad	Paragraff(au) Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 - y Caniateir Gollyngiadau oddi tanynt ac y gwnaed cais amdanynt oddi tanynt	Penderfyniad
Cynghorydd E.J. Goodjohn	(d) ac (dd)	Siarad a phleidleisio ar faterion cyffredinol a siarad ar faterion cyllid ac eiddo yn unig pan fydd materion yn ymwneud â Chymdeithas Tai Newydd yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar y cais a thrafodaethau yn y cyfarfod.

ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O YMCHWILIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – CWYNIION COD YMDDYGIAD (SM / PGCD) –

Pwrpas yr adroddiad oedd galluogi'r Pwyllgor i ystyried Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) i Gwynion Cod Ymddygiad a gyhoeddwyd ar 27 Medi, 2024.

Rhoddodd y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfreithiol wybod i'r Pwyllgor am brif nod yr adolygiad annibynnol, fel y manylir arno yn Adran 1 yr adroddiad, i werthuso prosesau, dirprwyaethau a phenderfyniadau Tîm Cod Ymddygiad OGCC yn ymwneud ag asesu cynion a ymchwiliad gan y Tîm Cod a Chyn Reolwr Tîm y Cod. Nod yr adolygiad oedd cadarnhau bod y gweithdrefnau dywededig yn ddiduedd, yn wleidyddol niwtral, ac yn nodi gwersi i'w dysgu.

Tynnodd y Swyddog sylw'r Pwyllgor hefyd at y gwahanol atodiadau ar gyfer yr adroddiad a oedd yn cynnwys datganiad gan OGCC yn cymeradwyo'r saith argymhelliad a oedd wedi codi o ganlyniad i'r adolygiad, ac y manylwyd arnynt yn llawn yn Adran 2 yr adroddiad.

PENDERFYNWYD – Nodi'r Adolygiad Annibynnol o Ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

ADRODDIAD DIWEDDARU FFORWM CADEIRYDDION PWYLLGORAU SAFONAU CENEDLAETHOL CYMRU (SM / PGCD) –

Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor am ei bresenoldeb rheolaidd yng nghyfarfodydd y Fforwm, y diwethaf ym mis Mehefin 2024 a'r nesaf a drefnwyd ar gyfer Ionawr 2025, a dywedodd fod y Fforwm yn datblygu dros amser a'i fod yn gyfle diddorol a chadarnhaol i glywed sut yr oedd Pwyllgorau Safonau eraill yn ymdrin â materion.

Wedi hynny, yn dilyn pwynt a godwyd yng nghyfarfod Grŵp y Swyddogion Monitro ar 4 Hydref, 2024, roedd barn y Pwyllgor Safonau ar eitemau agenda arfaethedig ar gyfer cyfarfod y Fforwm ym mis Ionawr 2025 yn cael ei cheisio ar hyn o bryd. Felly, byddai unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Swyddogion Monitro ym mis Rhagfyr 2024, gyda'r bwriad o gwblhau agenda nesaf y Fforwm mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn ystod mis Rhagfyr 2024.

Tynnodd y Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd sylw'r Pwyllgor at dair eitem agenda arfaethedig a nodir ym mharagraff 2.2 o'r adroddiad, un ohonynt yn adolygiad posibl o'r Weithdrefn Datrys Anghydfodau Lleol (GDALI) ar gyfer Aelodau Etholedig, y byddent yn eu cefnogi'n llawn ac, mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y dyfodol am unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r weithdrefn o ystyried eu rôl ar Weithgor Adolygu GDALI.

Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd Franks ynghylch a fyddai trothwy/lefelau'r cwynion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor yn cael eu hadolygu, dywedodd y Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd mai mater i'r Ombwdsmon ei benderfynu oedd y pwynt hwn yn y bôn. Fodd bynnag, y bwriad oedd dod â rhagor o wybodaeth am brosesau amrywiol o ymdrin â chwynion lefel isel a dderbyniwyd gan y Swyddog Monitro i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Yn dilyn hyn, holodd y Cynghorydd Summers a oedd unrhyw bryderon penodol mewn perthynas â'r GDALI presennol a fyddai'n llywio'r adolygiad cysylltiedig. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd nad oeddent yn gallu darparu unrhyw fanylion penodol mor gynnar yn yr adolygiad, fodd bynnag, roedd trafodaethau rhagarweiniol wedi cynnwys trafod natur y GDALI yn dod yn eithaf gwrthwynebol ac felly teimlwyd bod angen adolygiad cynhwysfawr. Bydd profiadau Swyddogion Monitro ac Aelodau a oedd wedi cymhwyso'r weithdrefn o'r blaen yn cael eu bwydo'n ôl fel rhan o'r adolygiad a chrosawyd barn y Pwyllgor ar y weithdrefn hefyd.

I gloi, dywedodd Mr Watkins fod y broses o ddelio â gwrandawriad Pwyllgor Safonau unwaith y'i cyfeiriwyd at y Pwyllgor gan yr Ombwdsmon yn feichus iawn ac felly'n gobeithio y gellid symleiddio'r weithdrefn gwrandawriadau yn y dyfodol. Ategodd y Cadeirydd sylwadau Mr Watkins gan nodi bod goblygiadau hefyd o ran sut y paratôdd yr Ombwdsmon yr achos.

Diolchodd y Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i'r Pwyllgor am eu sylwadau a dywedodd fod adroddiad yn y dyfodol wedi'i fwriadu i'r Pwyllgor ei ystyried mewn perthynas ag adolygiad o weithdrefn fewnol Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer gwrandawiadau Pwyllgor Safonol.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi adroddiad diweddarau Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol Cymru.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

GOHEBIAETH AG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM / PGCD) –

Yn unol â Rhaglen Gwaith Cychwynnol y Pwyllgor, cytunwyd yn flaenorol y byddai eitem sefydlog yn ymddangos ar agenda'r Pwyllgor fel y gallai'r Pwyllgor gael gwybod am ohebiaeth ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac unrhyw faterion sy'n codi.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad, o ystyried y ffaith y byddai unrhyw ddiweddariad ar ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac unrhyw faterion yn codi o dan Ran II o'r adroddiad, yn cael eu hystyried dan Ran II o'r rhaglen.

Rheswm dros y penderfyniad

Hysbysu aelodau'r Pwyllgor.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

GOHEBIAETH AG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM / PGCD) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Fel yr amlinellwyd yn Rhan I o'r rhaglen, roedd y Pwyllgor Safonau wedi cytuno bod eitem sefydlog yn ymddangos ar agenda'r Pwyllgor er mwyn i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd allu hysbysu Aelodau'r Pwyllgor Safonau am yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ar unrhyw faterion sy'n codi, gyda'r eitemau'n

gyfrinachol eu natur yn unol â gweithdrefn yr Ombwdsmon.

PENDERFYNWYD – Nodi'r wybodaeth gyfrinachol a ddarparwyd gan y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Democraidd a Chyfreithiol yn y cyfarfod.

Rheswm dros y penderfyniad

O ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, yn nodi ei fod yn gyfrinachol ar hyn o bryd.